REES-DAVIES, IEUAN (1894 - 1967), cerddor ac awdur

Enw: Ieuan Rees-davies
Dyddiad geni: 1894
Dyddiad marw: 1967
Priod: Barbara Rees-Davies (née Lacey)
Priod: Jean Macdonald Rees-Davies (née Fitchet)
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: cerddor ac awdur
Maes gweithgaredd: Addysg; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Cerddoriaeth
Awdur: Rhidian Griffiths

Ganwyd 15 Gorffennaf 1894 yn Nhreorci, Rhondda, Morgannwg, a'i addysgu yn ysgol Pentre. Symudodd i Lundain tuag 1914 a bu dan hyfforddiant yng Ngholeg Goldsmith a'r Academi Gerdd Frenhinol. Magodd ddiddordeb arbennig yn safle cerddoriaeth yn yr ysgol, gan ennill diploma L.T.S.C. i athrawon. Enillodd hefyd dystysgrifau L.R.A.M. ac A.R.C.M. a chael F.T.S.C. ac F.T.C.L. er anrhydedd Bu'n athro ysgol ac yn brifathro yn Llundain, a threfnai ddosbarthiadau i athrawon cerdd yn y Literary Institutes. Penodwyd ef yn ddarlithydd yn y coleg a sefydlwyd yn Marylebone i hyfforddi athrawon cerdd, a bu'n cynghori awdurdodau addysg Llundain, Caint, Essex a Surrey ar gerddoriaeth ysgol. Bu'n athro ac yn arholwr yng Ngholeg Cerdd y Drindod yn Llundain ac yn aelod o gyngor Coleg y Tonic Sol-ffa. Cyhoeddodd nifer o lyfrau ac erthyglau ar addysg gerddorol, gan arbenigo ar brofion y glust a chanu dosbarth. Ymhlith ei weithiau ceir *Transposition at the keyboard* (1933), *A sightsinging course for the non-specialist teacher* (1955), *Aural tests for schools* (1960), *Graded music reading* (1961) a *Music for CSE* (1966). Cyfansoddodd donau a rhan-ganau : yr enwocaf o'i weithiau yw ei osodiad i gorau meibion o hwiangerdd a briodolir i'r Brenin Siarl I, ' Close thine eyes ', a droswyd i'r Gymraeg ('Cyn cau llygaid') gan William Evans ('Wil Ifan') ac a gyhoeddwyd gan Curwen yn 1938. Casglodd hefyd flodeugerdd ddwyieithog o farddoniaeth bro ei eni, *Caniadau Cwm Rhondda* (1928) sy'n cynnwys dwy gerdd o'i waith ei hun, ' Y garreg fawr ' a ' A nocturne - on Tylacoch '. Derbyniwyd ef i Orsedd y Beirdd o dan yr enw barddol ' Ieuan ' yn Eisteddfod Genedlaethol Treorci yr un flwyddyn. Priododd (1) â Jean Macdonald Fitchet (bu farw 1938); (2) â Barbara Lacey. Trigai ar ddiwedd ei oes yn Kingston-upon-Thames. Bu farw 28 Tachwedd 1967.

Awdur

Rhidian Griffiths

Ffynonellau

Who's who in Wales (1937)

Who's who in Music (Llundain 1935) (1935; 1962)

Y Cerddor, Ebrill 1934

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20734182

Dyddiad cyhoeddi: 1997

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu